OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 No. 1215

Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018

RHAN 5

GORFODI A THROSEDDAU

Cyfyngiad ar ddwyn achos am drosedd cosb

23.—(1) Pan fo hysbysiad cosb wedi ei roi i berson—

(a) ni chaniateir dwyn achos yn erbyn y person hwnnw am y drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn ar y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad; a

(b) ni chaniateir euogfarnu'r person hwnnw am y drosedd os telir y gosb yn unol â rheoliad 24 cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys os tynnir yr hysbysiad cosb yn ôl yn unol â rheoliad 25.